






Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Grŵp Cyngor Technegol

Datganiad consensws ar effaith profion  
sengl o'u cymharu â phrofion dwbl ar  
gyfer cleifion cyn eu rhyddhau o'r  
Ysbyty i Gartref Gofal

02 Medi 2020



## Grŵp Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru: Datganiad consensws ar effaith profion sengl o'u cymharu â phroffion dwbl ar gyfer cleifion cyn eu rhyddhau o'r Ysbyty i Gartref Gofal

### Y Cefndir

Ar hyn o bryd yng Nghymru, rhaid profi cleifion mewnol Ysbyty cyn eu rhyddhau i leoliad Cartref Gofal.

Mae angen canlyniad negatif cyn eu rhyddhau.

Mae mater positifedd lefel isel parhaus mewn cleifion a heintwyd yn flaenorol â SARS-CoV-2, a'r gydberthynas wael bosibl â heintusrwydd wedi cael sylw mewn papur blaenorol gan Is-grŵp Profi'r Grŵp Cyngor Technegol (T-TAG).

Mae'r posibilrwydd o'i gwneud yn ofynnol i gael 2 ganlyniad negatif cyn rhyddhau cleifion wedi'i godi, gan fod gwledydd eraill (ee yr Alban) wedi mabwysiadu'r polisi hwn. Cymerir mai'r rheswm arfaethedig dros broffion 'dwbl' yw cynyddu sensitifrwydd y broses profi a lleihau'r risg o ganlyniadau negatif anghywir yn arwain at y perygl o breswylwyr agored i niwed yn dod i gysylltiad â'r feirws.

Gellir cyfrifo'r tebygolrwydd o ganlyniadau negatif anghywir o sensitifedd y prawf a chyffredinrwydd y clefyd yn y boblogaeth a brofwyd. Amcangyfrifir mai 85% yw sensitifedd y platfformau profi presennol yng Nghymru, ac mai 99.1% yw eu penodolrwydd. Nodir amcangyfrifon o nifer y canlyniadau negatif a phositif anghywir ar gyfer cyffredinrwydd amrywiol o'r clefyd yn y tabl isod.

Penodolrwydd (%)	Sensitifedd (%)	Cyffredinrwydd (%)	PPV	Canlyniadau Positif/1,000 o broffion			Canlyniadau Negatif/1,000 o broffion		
				Cyfanswm positif	Positif cywir	Negatif anghywir	Cyfanswm negatif	Negatif cywir	Negatif anghywir
99.1	85	0.01	0.05	9	0	9	991	991	0
99.1	85	0.05	0.05	9	0	9	991	991	0
99.1	85	0.1	0.09	10	1	9	990	990	0
99.1	85	0.5	0.32	13	4	9	987	986	1
99.1	85	1	0.49	17	9	9	983	981	2
99.1	85	5	0.83	51	43	9	949	941	8
99.1	85	10	0.91	93	85	8	907	892	15

(PPV – Gwerth Rhagfynegol Positif)

Fel y gwelir, os 0.05% yw cyffredinrwydd y clefyd (sef amcangyfrif presennol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y boblogaeth gyffredinol), ni fyddai unrhyw ganlyniadau negatif anghywir pe bai 1,000 o bobl yn cael eu profi. Ni wyddys cyffredinrwydd presennol y clefyd yn y boblogaeth asymptomatig o gleifion mewnol

ysbytai sy'n aros i gael eu rhyddhau i Gartref Gofal, ond mae'n debygol o fod yn isel iawn.

(Nifer yr achosion o COVID-19 a ddechreuodd mewn ysbyty ('pendant', 'tebygol', ac 'amhendant') ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben 9 Awst oedd 14, o blith cyfanswm o ~9,000 o welyau, a fyddai'n golygu cyffredinrwydd o 0.15%. Mae'r cyffredinrwydd ymysg cleifion asymptomatig yn debygol o fod yn is na hyn).

Os oedd y cyffredinrwydd yn 0.1% (amcangyfrif rhesymol yn seiliedig ar y data), ni fyddai unrhyw ganlyniadau negatiff anghywir pe bai 1,000 o bobl yn cael eu profi.

Os oedd y cyffredinrwydd yn 1%, amcangyfrifir y byddai 2 ganlyniad negatiff anghywir pe bai 1,000 o bobl yn cael eu profi.

O ran profion dwbl, byddai'r cyffredinrwydd mewn poblogaeth o gleifion mewnol sydd eisoes wedi cael prawf negatiff yn y 48 awr flaenorol yn isel iawn, ac yn debygol o fod yn llai na 0.01%. Yn y sefyllfa hon, ni fyddai disgwyl unrhyw ganlyniadau negatiff anghywir, hyd yn oed pe bai 10,000 o gleifion yn cael eu profi.

Yn y cyd-destun hwn, dylid nodi hefyd fod y polisi presennol, sef dylai cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty i Gartref Gofal hunanynysu am 14 diwrnod, yn lliniaru effaith rhyddhau claf sydd wedi cael canlyniad negatiff anghywir i leoliad Cartref Gofal, cyn belled â bod y polisi yn cael ei weithredu'n gywir.

## Casgliadau

- Mae'r tebygolrwydd o ganlyniadau negatiff anghywir yn isel iawn, pan fo cyffredinrwydd COVID-19 yn isel.
- Mae cynnal profion dwbl yn lleihau'r tebygolrwydd o ganlyniadau negatiff anghywir i bron i sero.
- Wrth ystyried polisi profion dwbl, byddai angen cydbwysio manteision lleihau'r risg o ganlyniadau negatiff anghywir â'r effeithiau niweidiol cysylltiedig ar lefel yr unigolyn a lefel y boblogaeth. Byddai effeithiau ar lefel y boblogaeth yn cynnwys oedi o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty i gartrefi gofal, sydd ynddo'i hun yn arwain at effeithiau niweidiol ar lefel yr unigolyn (ee mwy o risg o ddal haint yn yr ysbyty, effeithiau negyddol ar becynnau gofal, lles emosiynol a meddyliol, colli lle mewn cartref gofal etc.) ac ar lefel y system (ee effeithiau negyddol ar lif cleifion).
- Os dilynir polisi profion dwbl, dylid ystyried a ddylai gynnwys:
  - 2 swab a gymerir ar yr un pryd, ac a brofir ar blatfformau gwahanol gyda thargedau gwahanol
  - 2 swab a gymerir 12 awr ar wahân
  - 2 swab a gymerir 24 awr ar wahân

- Cymryd ail swab dim ond ar ôl canlyniad negatiff cychwynnol.